21. Cors Cilâ
Dynfant, Abertawe

Cyfeiriadau Grid	Map Explorer 164 yr A.O. Gŵyr. Prif fynedfa: SS597925, Canolfan y safle: SS597927
Statws	Gwarchodfa Natur Leol.
Daliadaeth	Sicrhawyd drwy brydles am 25 mlynedd gan Gyngor Dinas Abertawe fis Mehefin 1995, wedi ymgyrch i'w hachub rhag cael ei defnyddio fel tomen sbwriel.
Maint	10 he (24.7 erw).
Lleoliad a Nodiadau Mynediad	Ar ochr orllewinol Dynfant. Mynediad ar draws gofod gwyrdd, heibio man chwarae i blant, dros Afon Clun ac i'r warchodfa natur. Llwybrau a styllod gwastad yn cynnig mynediad rhwydd.
Cludiant cyhoeddus	Gwasanaethau bws 20, 21 a 22 o Orsaf Quadrant Abertawe i Cilâ.

Disgrifiad: Cors, glaswelltir gwlyb a choetir gwlyb. Mae'r warchodfa natur drefol hon yn cynnig amrywiaeth cyfoethog o gynefinoedd, yn cynnwys cors / glaswelltir corsiog a darn helaeth o goetir gwlyb, coetir llydanddail sychach, glaswelltir niwtral sych, cors a mign / siglen. Dyma sy'n weddill o ardal helaethach o lawer o gors ar waelod cwm.

Mae'r warchodfa'n bwysig i adar a chofnodir mwy na 60 o rywogaethau yma yn ystod y tymor magu, yn cynnwys Telor y Cyrs a Rhegen y Dŵr. Mae'r safle wedi cael ei arenwi fel lleoliad pwysig iawn i ymlusgiaid, gyda phedwar allan o'r pump ymlusgiad sy'n byw yng Nghymru yn bresennol yma, a'r Madfall Cyffredin, y Madfall Palfaidd, y Broga a'r Llyffant, sy'n magu. Hefyd, mae'r warchodfa'n safle bwydo pwysig i ystlumod, gydag o leiaf pum rhywogaeth wedi'u cofnodi, yn cynnwys yr Ystlum Clonclyd, yr Ystlum Clustiog Brown a'r Ystlum Nosol.

Yn 1993, wedi derbyn grant o £5,000 gan Fragdai Bass, llwyddwyd i adeiladu llwybr pob tywydd 400m o hyd ar y safle, yn darparu mynediad ar gyfer yr anabl ar hyd ymyl y gors ac yn cysylltu Cilâ â Llwybr Beicio Abertawe. Mae llwybr pren wedi'i adeiladu hefyd, i ddarparu mynediad addysgol a phleserus i ran o'r gors agored a'r ffen o goed gwerni / helyg. Enillodd y gwaith hwn Wobr Aur Bass / Yr Ymddiriedolaethau Byd Natur yn 1993/94, i gydnabod ei gyfraniad i wella a diogelu'r amgylchedd a bywyd gwyllt er mwyn i'r gymuned leol ei fwynhau a'i werthfawrogi.

Killay Marsh 1 6/7/06, 10:32 am



Nodau Rheoli: Rheoli a chynnal yr amrywiaeth o gynefinoedd ar gyfer y rhywogaethau sy'n bresennol, a chynnal ac annog mynediad.

Amser da i ymweld	
Chwefror - Ebrill	Amffibiaid yn magu
brill - Awst	Blodau a phryfed dyfrol, yn cynnwys gweision yn neidr
Ebrill - Gorffennaf	Adar yn magu
Mehefin – Medi	Ystlumod yn bwydo ar nosweithiau cynnes